Newyddion
Gorffennaf 2005

Cynhaliwyd trydydd digwyddiad RhMCW yn Neuadd Goffa Brynteg - y gweithdy cyfrifon cymdeithasol y gwnaed cais amdano gennych chi'r aelodau.

Agorodd John Pearce, cadeirydd y Rhwydwaith Archwiliadau Cymdeithasol (*Social Audit Network SAN),* y gweithdy gyda throsolwg o archwiliadau a chyfrifon cymdeithasol a rhai o'r dulliau cynorthwyo sydd ar gael i sefydliadau. Yn dilyn sgwrs John bu i Gaynor McKnight o *Lister Steps Childcare* roi mewnwelediad defnyddiol ynghylch sut roedd y broses wedi eu cynorthwyo nhw. Erbyn hyn mae *Lister Steps* ar fin dechrau eu trydedd gyfres o gyfrifon cymdeithasol.

I gloi, siaradodd Katie Trent o Cylch am eu rhaglen gefnogi clwstwr sy'n cynnwys sefydliadau sydd yn llunio eu cyfrifon cymdeithasol ar gyfer archwiliad ar hyn o bryd. Pwysleisiodd Katie y manteision i sefydliadau gydweithio i helpu â chostau a chefnogi ei gilydd drwy'r broses.

Mae SAN, yn anfon cylchlythyr ar yr e-bost yn rhad ac am ddim bob mis sy'n cynnwys y manylion diweddaraf o'r maes cyfrifon ac archwiliadau cymdeithasol ac os oes unrhyw un yn dymuno ymuno â rhwydwaith, yna anfonwch e-bost at John Pearce (gweler y manylion sy'n atodedig) a chewch eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu.

Rhoddodd yr aelodau sylwadau ar y taflenni gwerthuso y byddai'n ddefnyddiol cael copi o gyflwyniad John Pearce. Os yw unrhyw un yn dymuno copi o'r sleidiau *powerpoint* yna gadewch i mi wybod.

Os yw unrhyw sefydliad yn dymuno mynd â hyn ymhellach a sefydlu 'clwstwr' ar gyfer Wrecsam yna cysylltwch â ni a gwnawn y gwaith i gydlynu grwpiau at ei gilydd.

Diolch yn fawr i'r rheiny a oedd yn bresennol yn y digwyddiad a oedd yn ein barn ni yn werthfawr a buddiol.